

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD MAWRTH, 15 HYDREF 2019

Yn
bressenol: Cynghorydd Jones-Pritchard(Cadeirydd)

Cynghorwyr Bowden, Kelloway, Lay, McKerlich, Naughton,
Sandrey a/ac Wong

13 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Goddard.

14 : DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb dan Ran III o God Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant yn gyffredinol a chwblhau ffurflenni buddiannau personol ar ddechrau'r cyfarfod ac yna, cyn dechrau trafod yr eitem dan sylw, nodi a yw'n fuddiant personol neu sy'n rhagfarnol. Os yw'r buddiant yn rhagfarnol, gofynnir i Aelodau adael y cyfarfod ac os yw'r buddiant yn bersonol, byddai'r Aelodau'n cael eu gwahodd i aros, siarad a phleidleisio.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

15 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2019 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

16 : GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - ADNODDAU A HERIAU

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai diben yr adroddiad hwn oedd rhoi gwybod i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd am weithgareddau presennol y Gwasanaethau Democrataidd a'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wybod i'r Aelodau am rolau a chyfrifoldebau pob un o'r gwasanaethau, a chafodd Dyraniad y Gyllideb, y cynigion ar gyfer arbed a'r cronfeydd wrth gefn eu hamlinellu.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at yr heriau presennol sy'n wynebu'r Gwasanaethau Democrataidd ar hyn o bryd, fel yr amlinellwyd yn fanwl yn yr adroddiad, sef:

- Apêl Addysg
- Office 365
- Gweithredu Microsoft SharePoint
- Diogelwch Personol ar gyfer Aelodau Etholedig
- Argraffu
- Etholiadau
- Staffio

Nodwyd y canlynol yn heriau i'r dyfodol yn yr adroddiad:

- Deddfwriaeth Newydd – y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau
- Arbedion yn y Gyllideb
- Datblygu Aelodau
- System Gynadledda Clyweledol a Chyfleusterau Gweddarlledu Newydd
- Ymgysylltu Democrataidd
- Adnewyddu Democrataidd
- Effeithlonrwydd Parhaus
- Datblygu Gwybodaeth am Gostau

Crynohir trafodaethau a chwestiynau'r Aelodau ar yr adroddiad fel a ganlyn:

O ran Apeliadau Addysg, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch pam y mae'r rhain yn rhan o gylch gwaith y Gwasanaethau Democrataidd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn gytundeb yn wreiddiol rhwng y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Adran Addysg. Nid oedd yr Adran Addysg yn gallu cynnal cyfarfodydd apeliadau gan fod yn rhaid i'r rhain gael eu cynnal yn annibynnol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y dyrannwyd arian am swydd gradd 2 rhan-amser i'r tîm gan yr Adran Addysg ond nid oedd hyn yn bodloni'r ymrwymiad cynyddol i gefnogi'r apeliadau. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai Adran Addysg ariannu'n llawn y gwaith a wnaed i gefnogi'r apeliadau addysg gan y Gwasanaethau Democrataidd. Ystyriwyd hefyd y gall fod darn o waith i'w wneud gan yr Adran Addysg mewn perthynas â chyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd am y rhesymau dros apelio.

Trafododd yr Aelodau'r mudo i Office 365 a gofynnodd pa arbedion fyddai'n cael eu gwneud pe bai pob aelod yn mudo cyn 31 Hydref 2019. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mai £40 fesul aelod fyddai'n cael ei arbed ar gyfartaledd. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai dim ond tua 20 munud y bydd y mudo yn ei gymryd, y byddai sesiynau ychwanegol yn cael eu trefnu ar gyfer Aelodau, y byddai problemau Aelodau sydd eisoes â chyfrifon a reolir eraill yn cael sylw, a phe bai angen rhoi setiau llaw ychwanegol, yna y byddai setiau llaw sydd wedi'u dychwelyd yn cael eu hailgylchu. Ar ôl rhywfaint o drafod, roedd yr Aelodau o'r farn y dylid diddymu mynediad at BlackBerry Works erbyn diwedd mis Hydref, ac y byddai'r Aelodau yn cael gwybod am hyn mewn digon o amser a byddai opsiynau eraill yn cael eu rhoi iddynt.

Wrth drafod SharePoint, nododd yr Aelodau fod rhai ohonynt eisoes yn defnyddio hyn mewn rolau eraill fel Llywodraethwyr, a gofynnon nhw a allent gael sawl gyfrif. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i wirio hyn ac i gael gwybod a all Llywodraethwyr ddefnyddio cyfeiriad e-bost Cynghorydd. Gofynnodd yr Aelodau pwy sy'n talu costau gweithredu SharePoint a dywedwyd wrthynt fod pob adran unigol yn eu talu, gyda chymorth gan TG.

Mewn perthynas ag argraffu a'r adolygiad o beiriannau argraffu, trafododd aelodau'r opsiynau a chytuno i symud y peiriant argraffu o lolfa'r Aelodau yn Neuadd y Sir gan mai'n anaml iawn y caiff ei ddefnyddio ac mae gan yr Aelodau fynediad i'r peiriannau argraffu diogel eraill o amgylch yr adeilad. Byddai peiriannau argraffu eraill yn cael eu hadolygu hefyd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Chwipiaid wedi trafod y ffaith na ddylid argraffu cyfresi o bapurau ar gyfer yr Aelodau oni bai bod y Gwasanaethau Democrataidd wedi cael gwybod am angen penodol. Trafododd yr Aelodau hyn, a

chredwyd bod angen dadansoddiad o'r arbedion, a'i bod yn bwysig peidio â bod yn wahaniaethol ac na ellid atal yr Aelodau rhag gwneud eu gwaith.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y gwaith etholiadol gan drafod a oedd pobl yn iawn am beidio â chofrestru yn ystod y broses ganfasio. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd unrhyw gofnod o ddirwyo unrhyw un o'r blaen. Roedd yr Aelodau o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol cael dadansoddiad ar lefel etholaeth. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Democraidd i gael gwybod mwy am hyn a rhoi gwybod i'r Pwyllgor.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau am broblemau gyda staffio a dywedwyd wrthynt, pe byddai gostyngiad yn nifer y staff, y byddai angen gostyngiad o 20% mewn cyfarfodydd Pwyllgor a chyfarfodydd Craffu. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn annhebygol y byddai'r arbedion y gofynnir amdanynt yn cael eu cyflawni.

Mewn perthynas â Datblygu Aelodau, trafododd Aelodau bresenoldeb mewn sesiynau hyfforddi. Credwyd, wrth symud ymlaen, fod angen rhoi tua 4-6 o wythnosau o rybudd ar gyfer sesiynau hyfforddi, a dylai sesiynau fod ar gael ar adegau addas o ran gwaith. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Chwipiaid wedi awgrymu y dylid ychwanegu cwestiwn at arolwg yr Aelodau i ofyn pa adegau sydd fwyaf addas iddynt. Cafwyd trafodaeth ynghylch y term 'hanfodol' a nodwyd mai'r unig hyfforddiant hanfodol gwirioneddol i Aelodau oedd yr hyfforddiant Cod Ymddygiad, ac na chymerwyd unrhyw gamau pe nad oedd Aelodau wedi mynychu'r sesiynau o'r blaen. Trafododd yr Aelodau y dylid dileu'r term 'hanfodol' ac y gallai sesiynau gael eu graddio ar lefel pwysigrwydd isel i uchel; a byddai nifer y sesiynau a gynhelir yn dibynnu ar lefel y diddordeb yn y sesiwn. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democraidd y bwriedir adolygu Strategaeth Hyfforddi a Datblygu'r Aelodau y flwyddyn nesaf ac y gellid nodi hyn fel newid cynlluniedig. Byddai'r eitem hon yn cael ei thrafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr.

Trafododd yr Aelodau Adnewyddu Democraidd gan nodi bod digwyddiad wedi'i drefnu. Trafododd yr Aelodau sawl fater gan gynnwys pwysigrwydd aelodau posibl yn gwybod beth yw gofynion y rôl a democratiaeth. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Democraidd ei fod wedi cynnal y digwyddiad hwn mewn awdurdod arall yn y gorffennol a'i fod wedi gweithio'n dda gydag ychydig o Aelodau'n bresennol i siarad am y rôl a meini prawf sylfaenol y rôl, a dangoswyd calendr o gyfarfodydd i ddangos amrywiaeth a swm busnes y Cyngor ynghyd â chyfeirio/cysylltu â Phartïon.

PENDERFYNWYD:

- I. Bod y Pwyllgor yn cydnabod barn y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol am yr angen i leihau nifer y cyfarfodydd ffurfiol ar gyfer y Gwasanaethau Democraidd er mwyn bwrw ei darged o ran arbedion. Bod y pwyllgorau o'r farn bod maint y gostyngiadau yr oedd eu hangen i frwr'r targed hwn yn annerbyniol pe bai trefniadau llywodraethu da'r Awdurdod yn cael eu cynnal.
- II. Bod yr adran Addysg yn ariannu'r Gwasanaethau Democraidd yn llawn am y cymorth a roddwyd ar gyfer Apeliadau Addysg;
- III. Bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno Office 365 i wneud y defnydd gorau o unrhyw arbedion y gellid eu gwneud. Roedd hyn yn cynnwys cael gwared ar

BlackBerry Works cyn diwedd mis Hydref, ar ôl cyfnod rhybudd priodol a nodi opsiynau amgen a oedd yn cael eu cynnig i'r Aelodau ymlaen llaw;

- IV. Symud y peiriant argraffu yn lolfa'r Aelodau yn Neuadd y Sir a chael gwared ar gyfleusterau argraffu eraill y Gwasanaethau Democrataidd fel sydd angen i adlewyrchu'r lefelau argraffu is;
- V. Ar ôl rhoi'r app Modern.gov newydd ar waith, rhoi mynediad ychwanegol i gyflenwadau pŵer yn ystafelloedd cyfarfod ffurfiol y Cyngor, cwblhau adolygiad o anghenion penodol Aelodau i argraffu, blaenoriaethu'r defnydd o ddogfennau digidol ar gyfer cyfarfodydd i leihau lefelau'r argraffu ymhellach.
- VI. Diwygio Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig i ddileu'r term 'hanfodol' o gategoreiddio gweithgareddau datblygu aelodau oni bai ei fod yn God Ymddygiad neu hyfforddiant Cynllunio a Thrwyddedu; a datblygu system raddio addas ar gyfer Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i nodi pwysigrwydd mynychu cyfleoedd dysgu i'r Aelodau;

17 : GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - GWEITHGAREDDAU A CHYMORTH GWASANAETH

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai diben yr adroddiad hwn oedd rhoi gwybod i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd am berfformiad Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ers y cyfarfod diwethaf ar 22 Gorffennaf 2019.

Aeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ag Aelodau drwy'r adroddiad gan eu diweddarau ar berfformiad Gwasanaethau Democrataidd yn y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Aelodau
- Gwasanaethau Craffu
- Gwasanaethau Etholiadol
- Prentisiaid Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd
- Modern.Gov
- Gwe-ddarlledu
- Adroddiadau Blynyddol Cynghorwyr
- Cyflwyno Office 365 ar gyfer Aelodau Etholedig
- Datblygu Aelodau
- Gwaith Craffu Rhanbarthol
- Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

Crynoir trafodaethau a chwestiynau'r Aelodau ar yr adroddiad fel a ganlyn:

Roedd yr Aelodau'n hapus i aros tan y cyfarfod nesaf i gael gwybodaeth chwarter 2.

Trafododd yr Aelodau Swyddfa Fusnes yr Aelodau yn Neuadd y Ddinas, ac roedd staff y Gwasanaethau Aelodau wedi bod yn gweithio yno ychydig ddyddiau'r wythnos ar sail rota. Holodd yr Aelodau ynghylch effeithiolrwydd y trefniant hwn ac roeddent o'r farn y dylid tynnu'r gwasanaeth hwn o Neuadd y Ddinas.

Gofynnodd yr Aelodau pam nad yw cyfarfod y Cabinet yn cael ei we-ddarlledu, a dywedwyd wrthynt mai cynllun peilot ydoedd ac nad ydynt eto wedi penderfynu pryd i

ddechrau. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd symud hyn yn ei flaen gan nad yw'r Aelodau yn rhan o broses y Cabinet a byddai'n ddefnyddiol gallu gweld y cyfarfodydd. Roedd yr Aelodau hefyd o'r farn na ddylai'r Cabinet fod yn ddetholus yn y pynciau a we-ddarlledir. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i symud y cais hwn yn ei flaen gyda'r Cabinet.

Trafododd yr Aelodau Adroddiadau Blynyddol Cynghorwyr a dywedwyd wrthynt y cânt eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar y wefan ar ôl eu derbyn. Trafododd yr Aelodau'r amserlenni yr oedd eu hangen ac roeddent o'r farn y gallai fod ymateb arafach oherwydd gwyliau'r haf. Esboniwyd mai'r dyddiad cau ar ddiwedd y flwyddyn a'i fod ar gyfer effeithlonrwydd gweinyddol, er y byddent yn cael eu derbyn ar unrhyw adeg.

O ran e-Ddysgu, gofynnodd yr Aelodau y gofynnir i'r holl Aelodau ofyn a ydynt am fynychu cwrs iaith Gymraeg. Nododd yr Aelodau'r Sgiliau Cadeirio a gofynnwyd am i hyn gael ei amserlennu yn gynnar yn y flwyddyn, cyn mis Ebrill, cyn i'r Aelodau gael eu penodi i'r pwyllgorau. O ran hyfforddiant Cynllunio i'r Aelodau, roedd yr Aelodau o'r farn y byddai hyn yn ddefnyddiol ar gyfer 2022, ond credwyd bod angen adolygu'r hyfforddiant er mwyn cyflawni'r amcanion. Gofynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i'r Aelodau anfon eu hawgrymiadau ar gyfer eu cynnwys yn yr hyfforddiant ato.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, fod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 29 Hydref 2019 ac y byddai gwybodaeth yn cael ei bwydo'n ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Dymunai'r Aelodau ddiolch i'r staff yn y Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD argymell:

- Diddymu darpariaeth staff Gwasanaethau'r Aelodau yn Swyddfa Fusnes yr Aelodau yn Neuadd y Ddinas;
- Gofyn i'r Cabinet am hynt y gwaith o we-ddarlledu cyfarfodydd cyhoeddus y Cabinet;
- Gofyn i'r holl Aelodau a ydynt yn dymuno mynychu cwrs iaith Gymraeg, yn amodol ar ofyn am y ddarpariaeth sydd ar gael.

18 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim.

19 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13 Ionawr 2020

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm